# Nodyn o'r Cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol PCS a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2016

Yn bresennol: Julie Morgan AC; Bethan Jenkins AC; Mike Hedges AC; Helen West & Nancy Cavill (Staff Cymorth i Julie Morgan); Peter Wong (Staff Cymorth i Jenny Rathbone); Shavanah Taj & Darren Williams (PCS).

1. **Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd ac ail-gofrestru'r Grŵp**

Cafodd Julie Morgan a Bethan Jenkins eu hail-ethol fel cadeirydd ac is-gadeirydd, yn y drefn honno.

Cafodd yr angen i ddenu o leiaf un AC o drydedd plaid i fod yn aelod o'r grŵp ei gydnabod a chytunwyd i gysylltu ag aelodau o grŵp Ceidwadwyr Cymru a allai fod â diddordeb.

2. **Diweddariad ar y newidiadau arfaethedig i Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil**

Dywedodd PCS bod llywodraeth y DU wedi gosod ei becyn o newidiadau niweidiol i Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil yr wythnos flaenorol, ar ôl sicrhau cydweithrediad nifer o undebau, ond eithriwyd PCS o'r trafodaethau (sydd â mwy o aelodau yn y gwasanaeth sifil na'r undebau eraill wedi'u cyfuno) a'r POA a gwrthod caniatáu amser digonol i PCS ymgynghori â'i haelodau. Parhaodd PCS a'r POA i wrthod tegwch y newidiadau a chyfreithlondeb y broses ac roeddent yn ystyried eu hopsiynau, gan gynnwys y posibilrwydd o gamau cyfreithiol. Y pryder yn awr oedd y byddai llywodraeth y DU yn ceisio gweithredu miloedd yn rhagor o ddiswyddiadau, gan wneud defnydd o'r termau rhatach yr oeddent wedi'u gosod.

**Cam gweithredu: Julie i ysgrifennu ar ran y Grŵp i Lywodraeth y DU, yn mynegi pryder ynghylch eu gweithredoedd.**

3. **Yr Adolygiad Treftadaeth a thoriadau pellach yn Amgueddfa Cymru**

Dywedodd PCS ei bod yn cymryd rhan yn awr, ynghyd ag undebau eraill, yn y panel a sefydlwyd i fwrw ymlaen â'r Adolygiad Treftadaeth a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru. Ystyriwyd mai dyma'r ffordd orau i ganiatáu Cadw i archwilio'r cyfleoedd masnachol ehangach sydd ar gael o bosibl ac i wireddu'r "synergeddau" rhwng Cadw, Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. O'r pedwar opsiwn a awgrymwyd ar gyfer mwy o gydweithio ar draws y sector, roedd y Gweinidog, Ken Skates wedi ffafrio uniad llawn, ond roedd pryderon ynghylch priodoldeb hyn ac roedd yr undebau yn pryderu am y goblygiadau posibl ar gyfer staff a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Roedd yr undebau yn arbennig o bryderus am golli arbenigedd yn barhaus o fewn y sector yn sgil y toriadau a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cafwyd sylwadau gan Aelodau ar uchelgais yr adolygiad yn gyffredinol a'r amserlen, a oedd yn rhagweld y byddai ymgynghoriad cyhoeddus yn dechrau ym mis Ionawr, ac yn cwestiynu a yw'r dystiolaeth hyd yma yn cefnogi'r syniad y gellid cael manteision sylweddol drwy uno sefydliadau. Gofynnwyd i PCS a oedd cynnig penodol y byddai'r ymgynghoriad yn cael ei seilio arno ac a oedd gan yr undeb farn gref ar y mater ei hun. Ymatebodd swyddogion yr undeb bod trafodaethau'n mynd rhagddynt o hyd ar yr opsiwn a ffefrir ac y byddai'n rhoi gwybod i ACau ynghylch eu barn unwaith yr oedd y sefyllfa yn gliriach, ond y byddai archwiliad mewnol llawn o'r swyddi a'r sgiliau ym mhob sefydliad yn rhagofyniad hanfodol.

**Cam i'w gymryd: Cadw golwg am y tro; PCS i ddosbarthu ei safbwyntiau ei hun yn y man.**

4. **Bwriad i gau swyddfeydd treth yng Nghymru**

Dywedodd PCS bod llywodraeth y DU yn dal i fwrw ymlaen gyda'i chynlluniau i gau y mwyafrif helaeth o swyddfeydd treth ledled y DU, gan gynnwys pob un yng Nghymru y tu allan i Gaerdydd. Deallwyd y gallai fod y Gwasanaeth Iaith Gymraeg, sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd o Borthmadog, yn trosglwyddo i Lerpwl. Roedd yn debygol y byddai CThEM yn ymgymryd â pheth o waith yr Awdurdod Refeniw Cymru newydd. Roedd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Cynulliad ill dau wedi ystyried y mater. Anfonwyd arolwg rhanddeiliaid at ACau, a fyddai'n gyfle i fynegi eu pryderon.

**<u>Cam i'w gymryd</u>: PCS i egluro'r sefyllfa o ran y Gwasanaeth Iaith Gymraeg ac Aelodau'r Cynulliad i ymdrin â'r mater yn ôl yr angen.**

5. **Materion contractau allanol o fewn Llywodraeth Cymru**

Amlygodd PCS bryderon nad oedd cwmni o'r enw Daisy, y cafodd ychydig o waith TG Llywodraeth Cymru ei is-gontractio iddo, yn ymddwyn yn ddiwydiannol mewn ffordd sy'n gyson â'r safon a ddisgwylir yn y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi'u datganoli.

**<u>Cam i'w gymryd</u>: PCS i ganfod y sefyllfa ddiweddaraf a gofyn i'r Grŵp ei godi gyda Gweinidogion os oes angen.**

6. **Anghydfod Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**

Roedd y CCHD yn cynnal ymarfer ailstrwythuro sylweddol, er mwyn cyflawni toriadau yn y gyllideb o 25% dros bedair blynedd, ac roedd hyd at 24 o staff yn wynebu diswyddo gorfodol erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd y toriadau yn cael effaith anghymesur ar staff rheng flaen ar dâl isel, staff o leiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau ond roedd y Comisiwn wedi methu â gwneud asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Roedd aelodau PCS ac Unite wedi cynnal streic ar 9 Tachwedd a byddent yn gwneud hynny eto ar 16 Tachwedd.

**<u>Cam i'w gymryd</u>: Aelodau i ofyn i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau i wahodd CCHD i sesiwn yn y dyfodol. Julie i ysgrifennu ar ran y Grŵp at aelodau Pwyllgor Cymru EHRC ac i baratoi datganiad i'r wasg.**